



Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi 2021

Ffurflen gais

1. Mae'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi 2021 (EPRS 2021) yn weithdrefn y mae Cymwysterau Cymru yn ymgymryd â hi i adolygu a oedd CBAC yn cydymffurfio â'n gofynion rheoleiddiol a/neu'n cydymffurfio â'i bolisiau a'i weithdrefnau ei hun i sicrhau'r canlyniadau sy'n ofynnol gan ein [Fframwaith Dyfarnu Amgen Cymwysterau Cyffredinol ar gyfer Cymru](#) mewn perthynas â:
 - a. rheoli apêl Cam 2 Dysgwr;
 - b. cyhoeddi canlyniadau;
 - c. cywiro neu fel arall unrhyw ganlyniad anghywir a ddarganfuwyd mewn cysylltiad â'r Adolygiad Canolfan a'r broses apelio mewn perthynas â chymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru cymeradwy.
2. Mae EPRS 2021 yn ymwneud â dyfarnu'r cymwysterau canlynol:
 - a. Cymwysterau TGAU cymeradwy;¹
 - b. Cymwysterau TAG UG cymeradwy;
 - c. Cymwysterau TAG Safon Uwch cymeradwy;
 - d. Tystysgrif Her Sgiliau (THS) Bagloriaeth Cymru, a
 - e. Chymwysterau TGAU, TAG UG a TAG Safon Uwch etifeddol sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru yn unig.²
3. Mae cais EPRS 2021 yn ymwneud â Dysgwr neu Ddysgwyr y cyflwynwyd Gradd a Bennwyd gan Ganolfan i CBAC ar eu cyfer.
4. Ni all yr EPRS ond ystyried ceisiadau a wneir ar y seiliau a restrir ym mharagraff 10 o'r [Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi 2021](#).

¹ Mae cymwysterau cymeradwy wedi cael cymeradwyaeth sy'n benodol i gymwysterau sy'n sicrhau eu bod yn diwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.

² TGAU Lefel 1/Lefel 2 CBAC mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Cwrs Byr), TGAU Lefel 1/Lefel 2 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, TGAU Lefel 1/Lefel 2 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TGAU Lefel 1/Lefel 2 CBAC mewn Economeg y Cartref: Datblygiad y Plentyn, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

5. Gwnaed y cais EPRS ar ôl i gam olaf proses apelio cam 2 CBAC ddod i ben;
6. Rhaid i gais am EPRS gynnwys tystiolaeth i ddangos a oedd CBAC yn cydymffurfio â'n gofynion rheoliadol a/neu'n cydymffurfio â'i bolisïau a'i weithdrefnau ei hun i sicrhau'r canlyniadau sy'n ofynnol gan ein Fframwaith Dyfarnu Amgen cymwysterau Cyffredinol i Gymru fel y nodir ym mharagraff 1 o'r ddogfen hon.
7. Oni bai bod amgylchiadau eithriadol, ni chaiff yr EPRS ond ystyried cais a gyflwynir i EPRS o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y cafodd yr ymgeisydd benderfyniad terfynol gan CBAC.
8. Gall ceisiadau gael eu cyflwyno gan Ganolfan ar ran un neu fwy o Ddysgwyr, neu gan Ddysgwr. Bydd yr EPRS yn gwrthod ceisiadau dyblyg.
9. EPRS 2021 yw cam olaf y broses adolygu ac apelio yn haf 2021.
10. Pan fydd y panel EPRS yn penderfynu bod y cais o fewn cwmpas, byddwn yn cysylltu â'r ymgeisydd i gadarnhau hyn o fewn 10 diwrnod i dderbyn ei gais, lle byddwn yn amlinellu ein hamserlenni disgwylidig ar gyfer ymgymryd â phroses EPRS 2021 ar gyfer eu hachos.
11. Os nad yw'r cais o fewn cwmpas, byddwn yn cysylltu â'r ymgeisydd i roi gwybod iddo o fewn 10 diwrnod i dderbyn ei gais, gan esbonio'r rhesymau pam.
12. Yn dilyn y cyfnod cychwynnol o 10 diwrnod fel y nodir ym mharagraff 10, ein nod yw i'r broses EPRS gymryd tua 28 diwrnod i'w chwblhau fel arfer. Os bydd amgylchiadau lle rydym yn derbyn nifer fawr o geisiadau EPRS, a/neu geisiadau EPRS cymhleth, gallai'r broses gymryd hyd at dri mis i'w chwblhau. Os bydd angen mwy na 28 diwrnod arnom, byddwn yn cysylltu â'r ymgeisydd ac yn egluro'r rhesymau dros hyn.
13. Fel rhan o'r broses, efallai y bydd angen i ni ofyn am ragor o wybodaeth gennyh chi a/neu CBAC. Byddwn yn defnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael i ni, gan gynnwys gwybodaeth a ddarperir ar eich ffurflen gais i gynnal proses EPRS 2021.

Os oes angen i chi ychwanegu mwy o ymgeiswyr, rhowch rifau'r ymgeiswyr a'u graddau mewn taenlen a'u hanfon atom fel dogfen ar wahân wrth gyflwyno'ch cais.

Rwyf wedi atodi taenlen gyda manylion yr holl ymgeiswyr i'w hadolygu

Enw a rhif y ganolfan:	
------------------------	--

Cyfeiriad gohebu:	
-------------------	--

Enw'r cyswllt: <i>(dyma'r person y dylem gysylltu ag ef i gael rhagor o wybodaeth neu i ddarparu ein canfyddiadau)</i>	
---	--

Swydd y cyswllt:	
------------------	--

Rhif ffôn ar gyfer cyswllt:	
-----------------------------	--

Cyfeiriad e-bost ar gyfer cyswllt:	
------------------------------------	--

Sut hoffech chi i ni ohebu â chi?

E-bost

Post

Apêl CBAC

Rhowch rai manylion i ni am eich apêl gyda CBAC.

Y dyddiad y gwnaethoch eich apêl i CBAC:	
Y dyddiad y gwnaethoch dderbyn canlyniad eich apêl.	

Atodwch gopi o ganlyniad yr apêl.

Seiliau ar gyfer adolygu

Ticiwch y sail(seiliau) perthnasol:

(a) Ni wnaeth CBAC ddilyn ei weithdrefnau ei hun yn briodol ac yn gyson mewn perthynas â:	
(i.) cyhoeddi canlyniadau;	<input type="checkbox"/>
(ii.) rheoli apêl y Dysgwr; neu	<input type="checkbox"/>
(iii.) cywiro neu fel arall unrhyw ganlyniad anghywir a ddarganfuwyd mewn cysylltiad â'r Adolygiad Canolfan a'r broses apelio mewn perthynas â Chymhwyster Cyffredinol (GQ).	<input type="checkbox"/>
(b) Ni wnaeth CBAC sicrhau'r deilliannau sy'n ofynnol gan Amod GQAAF3.2(a)(i), drwy gyhoeddi canlyniadau sy'n adlewyrchu Gradd a Bennwyd gan y Ganolfan a gyflwynwyd i CBAC gan y Ganolfan mewn perthynas â'r Dysgwr hwnnw,	<input type="checkbox"/>
(c) Ni wnaeth CBAC ddilyn ei weithdrefnau ei hun yn briodol ac yn gyson mewn perthynas â rheoli apêl Dysgwr yn unol ag Amod GQAAF5.1(a), yn arbennig,	
(i.) penderfynu ar apêl a gyflwynwyd ar y sail nad oedd Canolfan wedi dilyn ei gweithdrefn yn briodol nac yn gyson mewn perthynas â chyhoeddi canlyniadau a/neu gynnal ei hadolygiad;	<input type="checkbox"/>
(ii.) penderfynu ar apêl a gyflwynwyd ar y sail bod camgymeriad gweinyddol a wnaed gan y Ganolfan neu CBAC wedi effeithio ar ganlyniad Dysgwr;	<input type="checkbox"/>
(iii.) penderfynu ar apêl a gyflwynwyd ar y sail bod arfer afresymol o farn academiaidd wedi effeithio ar ganlyniad Dysgwr.	<input type="checkbox"/>
(d) Ni wnaeth CBAC ddilyn ei weithdrefnau ei hun yn gywir ac yn gyson, mewn perthynas â chywiro neu fel arall unrhyw ganlyniad anghywir a ddarganfuwyd mewn cysylltiad â'r Adolygiad Canolfan a'r broses apelio mewn perthynas â Chymhwyster Cyffredinol (GQ).	<input type="checkbox"/>

Seiliau ar gyfer adolygu (parhad):

Esboniwch pam eich bod am i ni adolygu gweithredoedd CBAC. Cyfeiriwch at rannau penodol o ddogfennau perthnasol, gan ddefnyddio cyfeiriadau'r adran fel penawdau, a manylion o dan bob un yn amlinellu sut rydych chi'n meddwl na ddilynodd CBAC ei weithdrefnau polisiau ei hun yn briodol ac yn gyson a/neu sicrhau'r canlyniadau sy'n ofynnol gan Amod GQAAF3.2(a)(i).

Os yw'n berthnasol, rhowch fanylion am unrhyw le ar gwrs gradd / addysg uwch neu brentisiaeth fodern uwch sydd yn yr arfaeth, gan gynnwys y dyddiad cychwyn:

Eich crynodeb

--

Rhestrwch y dogfennau sy'n cefnogi eich cais:

1.	
2.	
3.	
4.	
5.	
6.	

Dychwelwch y ffurflen hon wedi'i chwblhau at:
rheolaethgorfforaethol@cymwysteraucymru.org